# Ymateb y British Council i Ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, 'Gwerthu Cymru i'r Byd'

## Crynodeb

1. Mae angen **strategaeth ryngwladol integredig** ar Gymru – un weledigaeth ar gyfer siapio ein dyfodol byd-eang fydd yn sicrhau bod gwaith sefydledig ym maes twristiaeth, masnach a mewnfuddsoddiad yn gydnaws â'r gwaith sy'n cael ei wneud i wireddu uchelgais ryngwladol ein sectorau addysgol a diwylliannol.

    1.1. Mae addysg a'r celfyddydau yn helpu i gronni ewyllys da ac ymddiriedaeth ryngwladol tuag at Gymru, a nhw yw sylfeini ein cyfalaf cymell tawel.

    1.2. Mae ein sectorau addysg uwch ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn sectorau sydd â chysylltiadau cryf â'r byd. Mae cydweithio ar ymchwil a phartneriaethau strategol yn cysylltu ein prifysgolion â sefydliadau byd-eang blaenllaw. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn gwneud cyfraniad sylweddol at fywyd Cymru ac yn creu cysylltiadau economaidd a diwylliannol parhaol rhwng Cymru a'r byd.

    1.3. Ein hartistiaid a'n cwmnïau celfyddydol yw llais rhyngwladol Cymru[1]. O Opera Cenedlaethol Cymru yn arwain blwyddyn o gydweithio creadigol yn Dubai[2], i'r sgyrsiau artistig bywiog a gefnogwyd drwy raglen India-Cymru[3] – mae'r celfyddydau yn helpu i greu darlun rhyngwladol o Gymru fel cenedl fodern, greadigol sy'n edrych allan ar y byd.

    1.4. Rhaid i Gymru wneud rhagor i sicrhau bod yr holl asedau cymell tawel hyn yn cael eu cydnabod, eu meithrin a'u defnyddio'n strategol.

2. Er mwyn sicrhau dyfodol Cymru yn y byd, bydd angen hefyd i'r genhedlaeth nesaf o bobl ifanc fod â'r **bydolwg rhyngwladolaidd a'r sgiliau rhyngddiwylliannol** sy'n angenrheidiol mewn oes fyd-eang.

    2.1 Mae gwaith ar wreiddio'r 'persbectif rhyngwladol' yng nghwricwlwm ysgol newydd Cymru (yn unol ag argymhellion *Dyfodol Llwyddiannus*[4]) wedi dechrau, a bydd hyn yn gwella'r arferion da sydd yn ysgolion Cymru ar hyn o bryd.

    2.2 Croesawn gefnogaeth Llywodraeth Cymru i raglen symudedd rhyngwladol Erasmus+, yn enwedig yng nghyd-destun Brexit. Mae'n bwysicach nag erioed bod cyfleoedd wedi'u hariannu i fyw, astudio a gweithio dramor yn dal ar gael i bobl ifanc Cymru.

    2.3 Mae angen adolygiad polisi ar fyrder er mwyn atal y dirywiad brawychus sydd i'w weld o ran dysgu ieithoedd modern tramor yn ysgolion Cymru.

## Y British Council

3. Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol. Rydym yn sicrhau gwybodaeth a dealltwriaeth gyfeillgar rhwng pobl gwledydd Prydain a gwledydd eraill.
4. Rydym wedi bod yn hybu hufen addysg a diwylliant Cymru yn rhyngwladol, drwy ein rhaglenni ym maes addysg a'r celfyddydau, ers y 1940au. Rydym yn helpu myfyrwyr, athrawon, artistiaid, ymchwilwyr a sefydliadau Cymru i gysylltu â'u cymheiriaid ledled y byd[5].



**Sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.** Elusen gofrestredig: 209131 (Cymru a Lloegr) SC037733 (yr Alban).

## Cymell tawel a dyfodol Cymru yn y byd

5. Gellir meddwl am rym cymell tawel fel cronfa o ewyllys da ac ymddiriedaeth tuag at wlad a'i phobl. Yn draddodiadol, gwelwyd hyn fel rhywbeth sy'n codi o atyniad tuag at ddiwylliant a gwerthoedd gwlad[6].

6. Rydym yn gwybod bod pobl dramor sydd wedi ymwneud â gwledydd Prydain drwy ein 'gofodau diwylliannol' – y celfyddydau, addysg, gwyddoniaeth a chwaraeon – yn teimlo mwy o ymddiriedaeth tuag at bobl gwledydd Prydain ac yn tueddu i fod â rhagor o ddiddordeb mewn astudio yma, cynnal busnes gyda ni a dod yma fel ymwelwyr[7]. Mae ymchwil diweddar gan Brifysgol Califfornia a'r Ganolfan Ymchwil Polisi Economaidd wedi dangos cysylltiad eglur rhwng cynnydd o ran grym cymell tawel a gwerth allforion[8].

7. Gall gwledydd bach gael budd anghymesur o'u cyfalaf cymell tawel. Mae Denmarc – gwlad fach yn y byd o safbwynt grym milwrol a dylanwad gwleidyddol ac economaidd – yn unfed ar ddeg ar Fynegai Cymell Tawel y byd, sy'n trefnu gwledydd yn ôl dylanwad eu diwylliant, diplomyddiaeth, addysg, llywodraethu ac arloesi[9]. Nid 'grym atyniad' llenyddiaeth noir Nordig a chyfresi teledu poblogaidd Denmarc yn unig sy'n gyfrifol am hyn. Mae 'grym esiampl' hefyd yn annog dinasoedd a gwledydd o gwmpas y byd i efelychu seilwaith beic-gyfeillgar Denmarc, i ddwyn gwersi gan ei model cymdeithasol-wleidyddol ac i geisio dyblygu ei meddylfryd o ran llywodraethu cydlynus a thryloyw.

8. Fel gwlad fach gydag asedau sylweddol ym maes addysg, diwylliant, chwaraeon a llywodraethu, dylai Cymru edrych yn ofalus sut mae gwledydd bach eraill yn cydnabod eu cyfalaf cymell tawel, yn ei feithrin ac yn ei ddefnyddio'n strategol.

9. Gan fod ansicrwydd am lawer o'r rhwydweithiau rhyngwladol sydd gan Gymru ar hyn o bryd drwy aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd, mae'r angen i sefydlu ac adnewyddu cysylltiadau rhyngwladol yn bwysicach nag erioed. Mae rhai sylwebwyr wedi galw ar y Deyrnas Unedig i fachu ar gyfle cymell tawel Brexit[10]. Dyma'r cyfle i Gymru gymryd ei grym cymell tawel o ddifrif.

## Cyfalaf cymell tawel Cymru: addysg uwch ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol

10. Mae ein sefydliadau addysg uwch ac addysg a hyfforddiant galwedigaethol yn sbardunau allweddol ar gyfer ffyniant economaidd ac ymwneud rhyngwladol Cymru.

> 10.1. Mae myfyrwyr rhyngwladol yn ein prifysgolion a'n colegau (mwy na 25,000 yn dod o 145 o wledydd yn 2013-14) yn gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd Cymru, gan greu mwy na 7,600 o swyddi a chyfoethogi ein campysau a'n cymunedau ehangach.
>
> 10.2 Mae cyn-fyfyrwyr rhyngwladol hefyd yn creu cysylltiadau diwylliannol ac economaidd hirdymor rhwng Cymru a'r byd, gan gymryd rhan mewn miliynau o sgyrsiau cadarnhaol am Gymru, ei phobl, ei busnesau a'i sefydliadau. Yn y dyfodol, gallai cyn-fyfyrwyr o'r fath a'u rhwydweithiau fod yn fewnfuddsoddwyr, yn bartneriaid masnachu, yn ymwelwyr ac yn gydweithwyr ymchwil gwerthfawr gyda Chymru.
>
> 10.3 Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor i gydlynu ymdrechion, fel bod potensial cymell meddal a gwerth economaidd posib ein cyn-fyfyrwyr rhyngwladol yn cael ei ddefnyddio i greu gweithgarwch twristiaeth, masnach a mewnfuddsoddi.

11. Mae'r ymchwil sy'n cael ei gynnal ym mhrifysgolion Cymru yn uchel ei barch yn rhyngwladol, a chafodd ei gydnabod ymhlith yr ymchwil mwyaf ei effaith yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014[11]. Mae ein prifysgolion yn cydweithio â'u cymheiriaid ledled y byd, ac mae ganddynt bartneriaethau strategol sefydledig gyda rhai o sefydliadau mwyaf blaenllaw'r byd.


**Sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.** Elusen gofrestredig: 209131 (Cymru a Lloegr) SC037733 (yr Alban).

12. Mae prifysgolion unigol yn dewis eu trywydd eu hunain o ran strategaethau rhyngwladol, marchnadoedd blaenoriaeth a dulliau o ymgysylltu. Fodd bynnag, mae'r sector addysg uwch yn ei gyfanrwydd hefyd yn cael budd o rai mentrau Cymru gyfan pwysig.

12.1 Partneriaeth rhwng y British Council, Prifysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yw rhaglen Cymru Fyd-eang, ac mae naw prifysgol Cymru yn ei chefnogi. Nod y rhaglen tair blynedd yw hybu sector Cymru mewn dwy farchnad flaenoriaeth allweddol yn y lle cyntaf – sef Unol Daleithiau America a Fiet-nam – drwy ymweliadau a theithiau dwy ffordd gan uwch swyddogion llywodraeth, arweinwyr prifysgolion ac academyddion. Mae'n seiliedig ar fenter lwyddiannus Connected Scotland[12].

12.2 Mae Cymru Fyd-eang yn cynnwys brand newydd Astudio yng Nghymru, sy'n hybu prifysgolion Cymru mewn arddangosfeydd a chynadleddau mawr rhyngwladol a thrwy farchnata digidol. Mae Wales.com wedi cefnogi'r gwaith hwn.

12.3 Gyda phartneriaid a chyllid o sawl un o adrannau Llywodraeth Cymru – gan gynnwys Masnach a Buddsoddi, Croeso Cymru a Swyddfa'r Prif Weinidog – mae Cymru Fyd-eang yn modelu dull integredig o werthu Cymru i'r byd, y gellid ei ehangu.

13. Ar lefel sefydliadol, mae gan y sector addysg a hyfforddiant galwedigaethol sawl cysylltiad rhyngwladol, trefniant cyfnewid a phartneriaeth fasnachol – gan gynnwys y rhai a sefydlwyd drwy raglen Partneriaethau Sgiliau Rhyngwladol y British Council.

14. Mae'r British Council hefyd yn cefnogi uchelgais ryngwladol y sector yn ei gyfanrwydd.

14.1 Rydym wedi cefnogi dau ymweliad rhyngwladol gan arweinwyr colegau fel rhan o'n rhaglen Cymunedau Dysgu Proffesiynol Rhyngwladol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

14.2 Rydym hefyd yn arddangos y gorau o addysg a hyfforddiant galwedigaethol Cymru drwy ein cynhadledd addysg ryngwladol Going Global a chyfres Global Skills Spotlight. Bydd 25 o uwch gynadleddwyr rhyngwladol yn dod i Gymru ym mis Mawrth 2018 fel rhan o'n hymdrech i roi sylw i brentisiaethau yng Nghymru.

14.3 Mae'r sector addysg a hyfforddiant galwedigaethol yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus iawn yn sicrhau cyllid Erasmus+ ar gyfer partneriaethau strategol a symudedd myfyrwyr a staff.

15. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod sector addysg a hyfforddiant galwedigaethol Cymru yn cael yr un cyfle â'r sector addysg uwch i gydlynu ei weithgarwch a'i waith cynllunio rhyngwladol gyda gweithgarwch twristiaeth, masnach a mewnfuddsoddi sy'n cael ei arwain gan y Llywodraeth, Does dim rhaglen debyg i raglen Cymru Fyd-eang ar gyfer y sector.

**Cyfalaf cymell tawel Cymru: y celfyddydau**

16. Mae gan Gymru gwmnïau ac artistiaid unigol o safon fyd-eang sy'n mynd â hufen diwylliant cyfoes Cymru o gwmpas y byd. Mae'r enghreifftiau dethol canlynol yn dangos rhychwant uchelgais artistig ryngwladol Cymru a'r modd y mae'r sector yn cefnogi amcanion rhyngwladol ehangach Cymru.

16.1 Mae rhaglen *India Cymru*, menter ar y cyd rhwng Cyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r British Council, wedi defnyddio Blwyddyn Diwylliant y DU-India 2017 er mwyn creu portffolio cyfoethog o gyweithiau sy'n cynnwys artistiaid amlwg o Gymru ac India[13]. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ken Skates AC, wedi cydnabod y rhan bwysig y gall cydweithio artistig o'r fath ei chwarae o ran adeiladu perthynas hirdymor Cymru gyda gwlad sy'n rym byd-eang cynyddol:



**Sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.** Elusen gofrestredig: 209131 (Cymru a Lloegr) SC037733 (yr Alban).

*Mae gan Gymru berthynas gref ag India ers tro. Mae Blwyddyn Diwylliant y DU-India 2017 yn cynnig cyfle pwysig i Gymru ac India gryfhau ac adnewyddu'r berthynas honno, a chreu cysylltiadau deinamig newydd drwy gydweithio'n greadigol.*

16.2 Mae British Council Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru / Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wedi rhoi cefnogaeth i gwmnïau celfyddydau perfformio Cymru allu cyflwyno eu gwaith yng Ngŵyl Cyrion Caeredin, y cyfle unigol mwyaf i gwmnïau theatr gwledydd Prydain gyflwyno eu gwaith i hyrwyddwyr rhyngwladol. Yn yr un modd, rydym wedi rhoi cefnogaeth i gerddorion yng ngŵyl Cysylltiadau Celtaidd Glasgow, un o'r gwyliau cerddoriaeth Geltaidd mwyaf, ac i awduron Cymru yn Ffair Lyfrau Llundain.

17. Yn wahanol i rai gwledydd a rhanbarthau bach, nid yw Cymru'n cael budd o gynnal digwyddiad diwylliannol rhyngwladol yn flynyddol neu bob dwy flynedd. Yn hynny o beth, ein barn ni yw bod Cymru yn colli cyfle i ddangos goreuon diwylliant Cymru a denu nifer fawr o ymwelwyr, llunwyr polisi a hyrwyddwyr rhyngwladol i'r wlad.

18. Wrth ystyried manteision posib sefydlu cynhadledd, arddangosfa neu ŵyl ryngwladol uchel ei phroffil yng Nghymru, mae llawer gennym i'w ddysgu o'r degawdau o fuddsoddi a welwyd yn yr Alban.

18.1 Mae gwyliau Caeredin yn frand diwylliannol rhyngwladol grymus i'r Alban a'r Deyrnas Unedig. Mae creu partneriaethau rhyngwladol yn rhoi llais i'r Alban ar lwyfan y byd, ac mae enw da diwylliannol y wlad yn cefnogi ei statws byd-eang. Mae'r gwyliau yn denu nifer sylweddol o ymwelwyr rhyngwladol, gyda rhyw 500,000 o ymwelwyr o'r tu allan i'r Alban yn aros dros nos bob blwyddyn[14]. Yn 2011, amcangyfrifwyd bod y gwyliau yn creu £261m o wariant ychwanegol yn economi'r Alban, enillion sylweddol ar fuddsoddiad cyhoeddus o £9m (yn 2014/15).

18.2 Mae Uwchgynhadledd Diwylliant Ryngwladol Caeredin – sy'n digwydd bob dwy flynedd – yn tynnu ynghyd weinidogion diwylliant, artistiaid, meddylwyr ac arweinwyr celfyddydol o bob rhan o'r byd, i rannu syniadau, arbenigedd ac arferion gorau, gyda'r nod o ysbrydoli newid cadarnhaol o ran buddsoddi a pholisi diwylliannol. Roedd cynrychiolaeth o dros 40 o wledydd yn bresennol yn uwchgynhadledd 2016.

19. Er bod y farchnad gwyliau yn fwyfwy cystadleuol, awgrymwn y dylid comisiynu ymchwil i adnabod gwahanol fodelau a allai gefnogi'r gwaith o ddatblygu digwyddiad arddangos rhyngwladol bob blwyddyn neu bob dwy flynedd yng Nghymru. Ein barn yw bod gŵyl neu arddangosfa gyson yn fwy tebygol o sicrhau enillion cynaliadwy ar fuddsoddiad na digwyddiadau untro.

### Hybu rhyngwladoldeb gartref

20. Er mwyn gallu gwerthu ei hunan yn effeithiol i'r byd, mae angen i Gymru ddatblygu cenhedlaeth o bobl ifanc â'r bydolwg rhyngwladolaidd a'r sgiliau rhyngddiwylliannol sy'n angenrheidiol mewn oes fyd-eang. Mae'r angen yn fwy byth yng nghyd-destun Brexit, sy'n creu rheidrwydd newydd i Gymru estyn allan at weddill y byd.

21. Mae meddwl rhyngwladol a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael eu cefnogi eisoes yn ysgolion Cymru drwy'r Rhaglen Addysg Ryngwladol, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i darparu gan y British Council. Mae'r Rhaglen yn darparu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i unigolion iddynt allu cyfrannu mewn cymuned fyd-eang; yn gwella ymwybyddiaeth o ddysgu byd-eang ac yn newid agweddau tuag ato; ac yn annog rhagor o gydweithio parhaus rhwng Cymru a gwledydd eraill[15].



**Sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.** Elusen gofrestredig: 209131 (Cymru a Lloegr) SC037733 (yr Alban).

22. Caiff rhyngwladoldeb mewn ysgolion ei gryfhau ymhellach pan weithredir argymhellion yr Athro Graham Donaldson, yn dilyn ei adolygiad o'r cwricwlwm a'i argymhelliad y dylid gwreiddio'r 'persbectif rhyngwladol' ym mhob un o'r chwe maes dysgu sy'n cael eu cynnig.

23. Mae Cymru wedi bod yn weithgar iawn gyda rhaglen Erasmus+ yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda mwy na 2,500 o unigolion yn cymryd y cyfle i fyw, gweithio neu astudio dramor yn 2016, gan ddenu mwy na €8m o gyllid yn y flwyddyn ddiwethaf a'r flwyddyn cynt. Mae statws hirdymor Erasmus+ yn y Deyrnas Unedig yn ansicr yn dilyn Brexit, a chroesawn gefnogaeth gadarn Llywodraeth Cymru i'r rhaglen. Y British Council, gydag Ecorys UK, yw Asiantaeth Erasmus+ y Deyrnas Unedig.

24. Mae'r British Council, yn ein cyfres Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru[16], wedi tynnu sylw at y dirywiad brawychus yng nghyfran y plant sy'n astudio ieithoedd tramor modern hyd at lefel TGAU yng Nghymru yn ystod y degawd diwethaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynllun pum mlynedd o'r enw Dyfodol Byd-eang i hybu dysgu ieithoedd, ac mae'r British Council yn cefnogi'r fenter honno[17]. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod adolygiad polisi brys yn cael ei gynnal er mwyn cael gwared ar rwystrau systemig sy'n atal astudio ieithoedd tramor modern mewn ysgolion uwchradd, ac mae angen buddsoddi pellach yn y sector cynradd er mwyn helpu Llywodraeth Cymru i wireddu'r uchelgais polisi y dylai plant fod yn 'ddwyieithog +1' o Flwyddyn 5 ymlaen.

25. Mae angen pobl ifanc ar Gymru sydd â'r sgiliau ieithyddol a rhyngddiwylliannol i gynnal busnes gyda gweddill y byd, a dylanwadu'n gadarnhaol ar weddill y byd. Bydd dirywiad parhaus ieithoedd modern tramor yn ein hysgolion yn niweidio gallu Cymru i wneud hynny yn yr hirdymor.

---

[1] Llywodraeth Cymru (2016) *Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru. http://gov.wales/docs/drah/publications/161214-a-vision-for-culture-in-wales-cy.pdf*

[2] Blwyddyn o Gydweithio Creadigol y DU/UAE 2017 https://www.britishcouncil.ae/en/uk-uae-2017

[3] India-Cymru https://wales.britishcouncil.org/india-cymru-meithrin-cydberthynasau-drwy-gelfyddyd

[4] Yr Athro Graham Donaldson CB (2015), Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru. http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/150225-successful-futures-cy.pdf

[5] British Council Cymru https://wales.britishcouncil.org/

[6] Britain's Global Future: *Harnessing the soft power capital of UK institutions* http://www.respublica.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/Soft-Power-3.pdf

[7] https://www.britishcouncil.org/organisation/policy-insight-research/research/trust-pays

[8] Dangosodd yr ymchwil bod cysylltiad rhwng cynnydd o 1% o ran cyfalaf cymell tawel a chynnydd o 0.8% yng ngwerth allforion. Rose, Andrew K. Like Me, Buy Me: The Effect of Soft Power on Exports (Gorffennaf 2016). Economics & Politics, Cyfrol 28, Rhifyn 2, tt. 216-232, 2016. Ar gael yn SSRN: http://ssrn.com/abstract=2796366 neu http://dx.doi.org/10.1111/ecpo.12077

[9] Mynegai Cymell Tawel https://softpower30.com/country/denmark/

[10] Britain's Global Future: *Harnessing the soft power capital of UK institutions* http://www.respublica.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/Soft-Power-3.pdf

[11] Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014 http://www.ref.ac.uk/

[12] Connected Scotland http://connectedscotland.org/

[13] India-Cymru https://wales.britishcouncil.org/india-cymru-meithrin-cydberthynasau-drwy-gelfyddyd

[14] Gŵyl Caeredin http://www.edinburghfestivalcity.com/about/documents/196-thundering-hooves

[15] Y Rhaglen Addysg Ryngwladol https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/rhaglen-addysg-rhyngwladol

[16] Tueddiadau Ieithoedd yng Nghymru 2016/2017 https://wales.britishcouncil.org/rhaglenni/addysg/tueddiadau-iaith-cymru

[17] Dyfodol Byd-Eang http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/151006-global-futures-cy.pdf



**Sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.** Elusen gofrestredig: 209131 (Cymru a Lloegr) SC037733 (yr Alban).